

GWYBODAETH I YMGEISWYR



Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

Aelod Anweithredol ar ran Cymru Ofcom

<u>Cynnwys</u>	<u>Tudalen</u>
1 Trosolwg o'r Sefydliad	2
2 Prif Fwrdd Ofcom	4
3 Y Rôl a'r Person	6
4 Ymrwymiad Amser, Cyfarfodydd a Thâl	7
5 Y Broses, Y Cod Ymddygiad a Sut i wneud Cais	8

GOODSON THOMAS

1 Trosolwg o'r Sefydliad

Ofcom

Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebiadau llinell sefydlog, ffonau symudol, y gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag sgamiau ac arferion twyllodrus, gan sicrhau ar yr un pryd bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu.

Mae Ofcom yn gweithredu o dan sawl Deddf Seneddol, gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn benodol. Rhaid i Ofcom weithredu o fewn y pwerau a'r dyletswyddau mae'r Senedd wedi'u gosod arno mewn deddfwriaeth. Prif ddyletswydd Ofcom o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Mae cyflawni'r ddyletswydd hon wrth galon popeth mae'n ei wneud.

Mae'r sectorau mae'n eu rheoleiddio wedi gweld ac yn parhau i weld newid cyflym. Mae hyn ar ffurf gosod rhwydweithiau band eang cyflymach a defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau teledu newydd sy'n prysur ddod yn gyffredin i lawer o ddefnyddwyr.

Cyllideb weithredol Ofcom ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 oedd £121.7 miliwn, gydag 897 aelod o staff. Mae Ofcom yn atebol i'r Senedd ond mae'n annibynnol ar y Llywodraeth a'r rheini mae'n eu rheoleiddio.

Prif gorff gwneud penderfyniadau Ofcom ydy ei Fwrdd (y prif Fwrdd), sy'n rhoi cyfeiriad strategol i'r sefydliad. Mae'r prif Fwrdd yn cael ei gefnogi gan nifer o Fyrddau eraill a Phwyllgorau sy'n goruchwyllo ei waith ar draws y DU ac yn y gwledydd datganoledig. Rhestrir y rhain [yma](#).

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw yng ngwahanol rannau'r DU pan fydd yn gwneud ei benderfyniadau. Mae ei weithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast a Llundain. Mae ei swyddfeydd cenedlaethol yn gallu defnyddio adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig. Ar y llaw arall, mae'r gweithrediadau hynny'n sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y Gwledydd yn cael sylw gan Ofcom.

Mae pwyllgor cynghori ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan aelodau [Bwrdd Cynnwys Ofcom](#) a'r [Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau](#).

Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC)

Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn rhoi cyngor i Ofcom ynglŷn â diddordebau, buddiannau a barn pobl sy'n byw yng Nghymru am faterion yn ymwneud â chyfathrebiadau. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bob chwarter, ac mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu rhoi i Fwrdd Ofcom.

Dyma gylch gwaith Pwyllgor Cynghori Cymru:

- ceisio canfod y materion sy'n effeithio ar y sector cyfathrebiadau a'r sector post yng Nghymru, gyda'i gilydd fel Pwyllgor ac yn unigol ar gyfer aelodau, gan gyfeirio'n benodol at y sectorau lle mae ganddynt wybodaeth neu arbenigedd penodol;

GOODSON THOMAS

- rhoi cyngor i Ofcom am faterion cyffredinol a phenodol sy'n codi yng Nghymru sy'n ymwneud â'r sector cyfathrebiadau a'r sector post;
- rhoi cyngor a sylwadau yn ôl y galw ar faterion mae Ofcom yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor;
- cynnig sylwadau fel sy'n briodol ar ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan Ofcom;
- pan fydd y Bwrdd Cynnwys yn gofyn am hynny, darparu cyngor penodol i'r Bwrdd hwnnw ar faterion sy'n ymwneud â theledu, radio a chynnwys arall ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom;
- pan fydd Bwrdd Ofcom yn gofyn am hynny, rhoi cyngor i'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr yng Nghymru yn y sector cyfathrebiadau;
- llunio adroddiad blynyddol sy'n adlewyrchu'r materion yn y sector cyfathrebiadau a'r sector post yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys bywgraffiadau o'r aelodau presennol ar gael [yma](#). Mae'r Pwyllgor yn penderfynu ar hyn o bryd ar ddyddiadau ei gyfarfodydd ar gyfer gweddill 2019. Mae'r ddau gyfarfod nesaf yn cael eu cynnal ar 4 Rhagfyr 2018 a 14 Mawrth 2019.

Tîm Ofcom Cymru

Mae tîm Ofcom Cymru yn cynrychioli Ofcom yng Nghymru a Chymru yn Ofcom - gan reoli ei gysylltiadau a'i gyfathrebiadau â'r cyhoedd ac ystod eang o randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys gwleidyddion, y diwydiant a'r cyfryngau. Mae'r tîm yn delio â phob agwedd ar gylch gwaith Ofcom ac yn rhoi mewnbwn a chyngor ar faterion fel y maent yn berthnasol i Gymru i dimau polisi a phrosiectau ar draws Ofcom.

Mae gan Gymru gynrychiolwyr ar Fwrdd Cynnwys Ofcom ac mae gan Gymru ei Phwyllgor Cynghori ei hun.

Drwy ymarferion ymgynghori helaeth, amrywiaeth o ddigwyddiadau a chysylltiadau gwaith sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda rhanddeiliaid, mae'r tîm yn sicrhau bod ei fys ar y pwls a'i fod yn ymwybodol iawn o anghenion y diwydiant, defnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru.

Dyma'r tîm:

- Eleanor Marks, Cyfarwyddwr Cymru (penodwyd Medi 2018)
- Elinor Williams, Pennaeth, Materion Rheoleiddiol
- Joanna Davies, Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg
- Lloyd Watkins, Cynghorydd Materion Rheoleiddiol
- Pete Alsop, Swyddog Peirianeg Sbectwm/Gorfodi
- Liz Nash, Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol

Mae'r prif gyhoeddiadau a lunnir gan y tîm i'w gweld [yma](#). Maent yn cynnwys [Adroddiad Blynyddol 2017-2018](#) ac adroddiad [Cyfryngau'r Genedl: Cymru](#) cyntaf Ofcom.

GOODSON THOMAS

2 Prif Fwrdd Ofcom

Trosolwg

Yn hanesyddol, mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer darlledu, telegyfathrebiadau a rheoli sbectrwm wedi cynnwys amrywiaeth eang o fodelau llywodraethu. Mae'r rhain wedi cynnwys goruchwyliaeth gan Gomisiwn a benodir gan y Llywodraeth, gan Gyfarwyddwr Cyffredinol a gan Asiantaeth o'r Llywodraeth.

Mae strwythur llywodraethu Ofcom yn wahanol. Mae'n seiliedig ar fodel sy'n gyfarwydd i'r sector masnachol, ond sy'n wahanol i'r gorffennol. Mae gan Ofcom Fwrdd gyda Chadeirydd ac aelodau gweithredol ac anweithredol. Y Pwyllgor Gwaith sy'n rhedeg y sefydliad ac mae'n atebol i'r Bwrdd, ac mae nifer o gyrff cyngori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.

Bwrdd Ofcom sy'n rhoi'r cyfeiriad strategol i Ofcom. Dyma'r prif offeryn rheoleiddio statudol gyda swyddogaeth hollbwysig o ran gweithredu Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn effeithiol.

Arglwydd Burns ydy cadeirydd y Bwrdd. Cyhoeddir enwau ei aelodau. Mae hyd at naw aelod ychwanegol gan gynnwys Prif Weithredwr Ofcom a hyd at dri aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Mae Bwrdd Ofcom yn cwrdd o leiaf unwaith y mis (ar wahân i fis Awst). Bydd agendâu a nodiadau cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefan Ofcom.

Mae gan y Bwrdd swyddogaeth llywodraethu ganolog, gan oruchwylio a sicrhau bod dyletswyddau cyffredinol Ofcom yn cael eu cyflawni, ynghyd â'i gyfrifoldebau statudol penodol a sicrhau ei fod yn glynu wrth ethos sefydliad gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Bwrdd hefyd yn goruchwylio cyllid a gwariant y Bwrdd yn gyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn gweithio ar y cyd. Fel y corff sy'n gyfrifol am reoli cyfeiriad strategol Ofcom, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd ei aelodau'n dilyn yr egwyddorion canlynol:

- bydd y Bwrdd yn gweithredu ar sail egwyddorion cydgyfrifoldeb, cydgefnogaeth a pharch;
- dylai aelodau'r Bwrdd allu cael gafael ar yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau y ceir dadleuon cadarn ac y gwneir penderfyniadau effeithiol
- ym mhob sefyllfa, pennir y bydd holl aelodau'r Bwrdd wedi cytuno â phob penderfyniad;
- ni fydd pwysau allanol yn newid prosesau'r Bwrdd ac eithrio ar gyfer llinellau amser posibl;
- mae disgwyl i ymddygiad aelodau'r Bwrdd mewn ymateb i benderfyniadau fod yr un fath y tu mewn a'r tu allan i Ofcom;
- ni fydd safbwyntiau lleiafrif yn cael eu gwneud yn gyhoeddus yn fewnol nac yn allanol;
- efallai y bydd gofyn i aelodau'r Bwrdd a enwebir (ar wahân i'r rheini a oedd yn anghytuno â phenderfyniad) egluro a mynegi penderfyniadau penodol;
- Os bydd aelod o'r Bwrdd yn ymddiswyddo, caiff ddatgan y rheswm dros yr anghytuno ond ni chaiff ailadrodd dadleuon aelodau eraill y Bwrdd yn gyhoeddus.

Aelodau'r Bwrdd

- Yr Arglwydd Burns, Cadeirydd
- Sharon White, Prif Weithredwr
- Maggie Carver, Dirprwy Gadeirydd
- Graham Mather, Aelod o'r Bwrdd
- Jonathan Oxley, Aelod Gweithredol o'r Bwrdd

GOODSON THOMAS

- Ben Verwaayen, Aelod o'r Bwrdd
- Tim Suter, Aelod o'r Bwrdd
- Bob Downes, Aelod o'r Bwrdd ar ran yr Alban
- Angela Dean, Aelod o'r Bwrdd Archwilio a Risg

Mae bywgraffiadau'r uchod i'w gweld [yma](#), ynghyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau, Gweithdrefnau'r Bwrdd a'r Gofrestr o Fuddiannau i'w Datgelu.

3 Y Rôl a'r Person

Mae Ofcom yn awyddus i wneud mwy i gryfhau a chydbwysu'r sgiliau sydd o amgylch y Bwrdd drwy wneud penodiad hollbwysig. Mae am benodi ei Aelod Anweithredol cyntaf ar ran Cymru.

Bydd gan yr unigolyn ddiddordeb yn y sectorau darlledu a chyfathrebiadau, neu mewn mentrau tebyg ar raddfa fawr yn y sector cyhoeddus neu fasnachol, neu ddealltwriaeth ohonynt. Byddai'n fanteisiol bod gan y sawl a benodir ddealltwriaeth neu brofiad o natur aflonyddgar arloesedd technolegol sy'n datblygu'n gyflym, ac o'r effeithiau posibl ar y farchnad a'r newidiadau strwythurol y gall hyn eu hachosi. Dylai'r unigolyn ddeall buddiant/diddordeb defnyddwyr mewn amgylcheddau o'r fath.

Hefyd, bydd disgwyl i'r unigolyn hwn ddeall a chymryd rhan yn holl drafodaethau'r Bwrdd ar draws ei gylch gwaith cyfan, gan gynnwys effaith cydgyfeirio ar reoleiddio ar draws y maes darlledu gan gynnwys y BBC, telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, gwasanaethau post, a sbectrwm.

Bydd yr unigolyn yn cael ei benodi fel Aelod o Fwrdd Ofcom gan Weinidogion Cymru (ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) a bydd ganddo'r un cyfrifoldebau ledled y DU ag aelodau anweithredol eraill y Bwrdd. Bydd y sawl sy'n cael ei benodi yn gallu cyfrannu'n gryf at waith y Bwrdd yn ystyried cyd-destun ehangach yr heriau sy'n wynebu defnyddwyr sy'n cael gwasanaeth gwael ledled y DU, e.e. pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Dylai hefyd fod yn gyfarwydd ag ymgysylltu â seneddau a llywodraethau, gan gynnwys mewn cyd-destun datganoledig.

Meini Prawf Dethol Allweddol

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fodloni'r meini prawf canlynol:

- dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar y sector cyfathrebiadau yng Nghymru;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chyfansoddiadol yng Nghymru;
- gallu deall yr egwyddorion busnes ac economaidd sy'n sail i'r sectorau darlledu, telegyfathrebiadau a phost yn yr amgylchedd digidol;
- sgiliau gwneud penderfyniadau cryf a barn gadarn er mwyn sicrhau darpariaeth lwyddiannus mewn sefydliad hynod gymhleth;
- gwerthfawrogiad o ddeinameg cystadleuaeth a defnyddwyr yn y sectorau hyn sy'n newid yn gyflym; y gallu i weithredu ar lefel Bwrdd a bod yn aelod da o dîm gan weithio gyda'r Cadeirydd a chydweithwyr eraill;
- yn gyfarwydd â phrosesau, strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu, a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.
- er nad yw medru'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, rhaid cael dealltwriaeth drylwyr o anghenion siaradwyr Cymraeg ac o ddyletswyddau Ofcom i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru, a rhaid gwerthfawrogi'r anghenion hynny;
- uniondeb personol uchel iawn; yn deall yr angen i Ofcom wneud penderfyniadau annibynnol o dan bwysau; dim gwrthdaro oherwydd unrhyw fuddiannau masnachol neu wleidyddol.

GOODSON THOMAS

4 Ymrwymiad Amser, Cyfarfodydd a Thâl

Ymrwymiad Amser

Mae'r penodiad hwn yn para am hyd at 4 blynedd. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i roi un neu ddau ddiwrnod yr wythnos o'i amser.

Bydd disgwyl i'r sawl sy'n cael ei benodi gryfhau'r ddealltwriaeth o arloesedd technegol, marchnadoedd sy'n newid a modelau darparu gwasanaethau masnachol a gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig, yn ogystal â materion polisi a rheoleiddio cysylltiedig ar y Prif Fwrdd. Bydd yn cynrychioli cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn gweithio gyda chyd-weithwyr ar y Bwrdd o'r gwledydd. Felly, bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan allweddol ar Bwyllgor y Gwledydd a bod yn barod i'w gadeirio os bydd gofyn, yn ogystal â mynychu Pwyllgor Cynghori Cymru, a gwasanaethu ar un neu fwy o Bwyllgorau'r Bwrdd (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Enwebiadau).

Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd (2019)

- 6 Chwefror
- 20 Mawrth
- 10 Ebrill
- 22 Mai
- 18 Mehefin
- 17 Gorffennaf
- 18 Medi
- 17 Hydref
- 20 Tachwedd (Caerdydd)
- 18 Rhagfyr

Tâl

Ffi y rôl, ar gyfer ymrwymiad o hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos ydy £42,519 y flwyddyn. Bydd yr holl dreuliau rhesymol sy'n cael eu cofnodi'n gywir a wynebir wrth gyflawni dyletswyddau'r rôl hon yn cael eu had-dalu'n unol â pholisi treuliau Ofcom.

GOODSON THOMAS

5 Y Broses, Y Cod Ymddygiad a Sut i wneud Cais

Y Broses

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **dydd Gwener, 23 Tachwedd 2018**. Bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal gyda Phanel penodiadau Ofcom ar **12 Ragfyr 2018**.

Bydd y panel cyfweild yn cynnwys Cadeirydd Prif Fwrdd Ofcom, yr Arglwydd Burns, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn Llywodraeth Cymru, Andrew Slade, cyn Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil ac Asesydd Penodiadau Cyhoeddus, Libby Watkins (Aelod Annibynnol o'r Panel) ac Ysgrifennydd Corfforaeth Ofcom, Jacqui Gregory (sylwedydd).

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi ym **mis Ionawr 2019**.

Bydd pob ymgeisydd sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cyfle i ymweld ag Ofcom a chael sesiwn frifffio gan uwch swyddogion, ac eithrio unrhyw unigolyn sy'n chwarae rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol ym mhroses benodi'r swydd hon. Ni fydd staff Ofcom sy'n cwrdd â'r ymgeiswyr neu'n eu briffio yn y cam hwn yn rhoi adborth ar unrhyw unigolyn i'r panel penodi.

Cod Ymddygiad

Rhaid i Aelodau a benodir osgoi unrhyw amheuaeth neu achosion go iawn o wrthdaro rhwng buddiannau, a datgan unrhyw fuddiannau gwirioneddol neu bosibl cyn derbyn eu penodiad. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus osgoi ymddygiad a allai ddwyn anfri ar Ofcom neu a allai roi'r argraff o ragfarn/beidio â bod yn ddiuedd. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Bwrdd, y gellir ei weld [yma](#).

Disgwylir i'r Aelodau a benodir gydymffurfio â'r holl Godau Ymddygiad a gyflwynir gan Ofcom heddiw ac yn y dyfodol. Mae'r Cod yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd a, chyn bo hir, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad sy'n debygol o ddiweddarau'r Cod er mwyn ystyried technoleg sy'n newid a chyfryngau cymdeithasol yn arbennig. Mae'n bosibl y bydd y Cod diwygiedig yn atal aelodau, tra'u bod yn gwasanaethu ar y Bwrdd, rhag gwneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ar faterion sy'n ddadleuol yn wleidyddol neu'n ddiwydiannol ac yn ymwneud â gwaith Ofcom. Caiff aelodau gyfle i weld y Cod diwygiedig yn gynnar.

Bydd disgwyl i Aelodau o'r Bwrdd ddangos cyfrinachedd llwyr mewn perthynas â gwybodaeth neu ddeunyddiau a fydd yn cael eu rhoi iddynt ar gyfer eu dyletswyddau ar y Bwrdd ac mewn cysylltiad â hynny. Rhaid dychwelyd unrhyw bapurau neu ddeunyddiau eraill at Ofcom ar ddiwedd cyfnod penodiad Aelod.

Sylwer: bydd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cael yr holl wybodaeth am ymgeiswyr, ac efallai y bydd rhywfaint yn cael ei rhannu â DCMS yn ystod y broses ddethol.

Sut i wneud cais

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch â Siân Goodson, Sam Rees neu Sam Smith yn Goodson Thomas ar 029 2021 6744.

GOODSON THOMAS

Dylai'r ceisiadau fod ar ffurf CV a llythyr eglurhaol. I wneud cais, anfonwch e-bost at applications@goodsonthomas.com gan roi GT_0127_Ofcom yn llinell y pwnc; ac atodi copi o'ch CV a'r llythyr eglurhaol. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod.